



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd o Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru

Tîm Asesu'r Amgylchedd

Fersiwn 2.0
10.08.15

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhychu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad	1
1.1	Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru	1
1.2	Cyflwyniad i Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd	1
1.3	Trosolwg o broses yr ARhC	2
1.4	Penderfynu a ddylai cynllun fod yn ddarostyngedig i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	3
2.0	Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd	4
2.1	Sgrinio cychwynnol o fesurau'r CRhPLI	4
	Mesurau sy'n cael eu gweithredu ar lefel genedlaethol	4
	Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd cenedlaethol arfaethedig ar gyfer Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a Chynlluniau Rheoli Basnau Afon	4
	Mesurau a neilltuir i gymunedau mewn perygl	5
2.2	Nodi safleoedd Ewropeaidd perthnasol	7
3.0	Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol	11
3.1	Asesiad o debygrwydd cydeffeithiau arwyddocaol gan y CRhPLI	11
4.0	Casgliad Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol	20
	Atodiad 1 - Ffigurau Safleoedd Ewropeaidd	26
	Atodiad 2: Sgrinio Safleoedd	34
	Atodiad 3: Canlyniad Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol	43

1.0 Cyflwyniad

1.1 Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru

Amcan Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLI) Gorllewin Cymru yw cyflawni Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Cymru 2011, trwy amlinellu mesurau ar gyfer rheoli perygl llifogydd rhwng 2015 a 2021 a thu hwnt. Mae'n dod â chynlluniau rheoli perygl llifogydd cyfredol at ei gilydd, yn enwedig trwy ddefnyddio gwybodaeth o Gynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd, Cynlluniau Rheoli Traethlin, a Chofrestr Cymunedau mewn Perygl Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'r cynllun yn amlinellu mesurau parhaus, mesurau y cytunwyd arnynt, a mesurau arfaethedig ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn ardal y basn afon. Mae'r mesurau parhaus a'r mesurau y cytunwyd arnynt wedi mynd trwy broses ymgynghori ac wedi cael eu derbyn yn flaenorol trwy Gynlluniau Rheoli Traethlin ail genhedlaeth a'r Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd. Mae'r CRhPLI yn ddogfen ymgynghori ar y mesurau arfaethedig newydd ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf.

Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) hwn yn ategol i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) sy'n cael ei gynnal wrth i'r CRhPLI gael ei ddatblygu, ac mae'n llywio'r asesiad hwnnw.

1.2 Cyflwyniad i Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd

Yng Nghymru, mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (SI 490, 2010),¹ a adwaenir fel 'Rheoliadau Cynefinoedd', yn gweithredu 'Cyfarwyddeb Cynefinoedd' yr UE (Cyfarwyddeb 92/43/CEE) ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt, a rhai agweddau ar y 'Gyfarwyddeb Adar' (2009/147/EC).² Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau yng Nghymru sydd o bwys Ewropeaidd.

Mae'r ardaloedd gwarchodedig yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, ac mae'r Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn berthnasol i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ymgeisiol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl, a Safleoedd Ramsar³ (safleoedd sydd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 am eu

¹Mae SI 490 (2010) yn atgyfnerthu amryw ddiwygiadau a wnaed i Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 (SI 2716, 1994). Diwygiadau: Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2011 (fel y'u diwygiwyd) (SI 625, 2011) a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2012 (fel y'u diwygiwyd) (SI 1927, 2012).

²Mae Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC ar warchod adar yn disodli Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/CEE. Mae'n cynnwys safleoedd a ystyrir y tiriogaethau mwyaf addas ar gyfer y rhywogaethau adar a restrir yn Atodiad 1 y Gyfarwyddeb ac adar mudol sy'n ymddangos yn rheolaidd (a adwaenir fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig).

³Mae'r Polisi Cynllunio cyfredol a Nodyn Cyngor Technegol 5 yn cynnig yr un warchodaeth ar lefel bolisi i Safleoedd Ramsar rhestredig ag a gynigir i safleoedd sydd wedi cael eu dynodi o dan y Gyfarwyddeb Adar a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd fel rhan o rwydwaith Natura 2000 yr Undeb Ewropeaidd (UE).

gwlyptiroedd rhyngwladol bwysig). Yn yr adroddiad hwn, cyfeirir at bob un o'r safleoedd hyn fel safleoedd Ewropeaidd.

Mae Rheoliad 9(5) y Rheoliadau Cynefinoedd yn mynnu ei bod yn rhaid i awdurdod cymwys (CNC ar gyfer y cynllun hwn) ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd wrth weithredu unrhyw rai o'i swyddogaethau. Mae Erthygl 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn diffinio'r gofynion ar gyfer asesu cynlluniau a phrosiectau sydd â'r potensial i effeithio ar safleoedd Ewropeaidd. Mae hyn yn mynnu bod awdurdod cymwys yn gwneud asesiad priodol o'r goblygiadau ar gyfer safle Ewropeaidd, yng nghyd-destun amcanion gwarchodaeth y safle hwnnw, cyn penderfynu ymgymryd ag unrhyw gynllun neu brosiect – neu cyn rhoi unrhyw gydsyniad, caniatâd neu awdurdod arall ar gyfer y cynllun neu'r prosiect – sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar y safle hwnnw ac nad yw'n gysylltiedig ag ef yn uniongyrchol neu'n angenrheidiol i'w reoli.

Mae'n bwysig nodi bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn cael ei gynnal ar lefel strategol ar draws holl ardal y basn afon. Dylid nodi hefyd bod y cynllun yn cynnig mesurau sy'n amlinellu'r fframwaith strategol ar gyfer dylanwadu ar brosiectau unigol, sydd â'r potensial i gael effeithiau arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd. Felly, mae'r ARhC hwn ar lefel cynllun yn nodi lle y gallai effeithiau posibl ddigwydd ac yn ceisio dylanwadu ar y broses o ddewis mesurau a hefyd ar sut y bydd y mesurau'n cael eu gweithredu er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Ewropeaidd. Nid yw'r ARhC wedi ceisio dod i unrhyw gasgliadau ynglŷn ag effeithiau arwyddocaol lle nad oes digon o wybodaeth ar gael. Lle nad yw'n glir neu lle na ellir dangos y bydd mesur CRhPLI yn cael effaith arwyddocaol, rydym wedi ei dynnu o ARhC y CRhPLI, ond byddwn yn ei drosglwyddo i lefel prosiect yr ARhC.

1.3 Trosolwg o broses yr ARhC

Mae Canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar y Gyfarwyddeb Cynefinoedd⁴ a chanllawiau ar y Rheoliadau Cynefinoedd⁵ yn amlinellu nifer o gamau i'r broses o gynnal asesiadau sy'n ofynnol o dan Erthygl 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Rydym yn cyfeirio at y broses hon fel 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' (ARhC). Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg o broses Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd, ynghyd â dolen i'r adrannau yn yr adroddiad lle mae'r broses yn cael ei thrafod.

⁴Y Comisiwn Ewropeaidd, 2001. Asesiadau o gynlluniau a phrosiectau sy'n cael effaith arwyddocaol ar safleoedd Natura 2000. Canllawiau methodolegol ar ddarpariaeth Erthygl 6(3) a (4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/CEE. Tachwedd 2001. Dogfen gyfarwyddyd ar Erthygl 6(4) 'Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd' 92/43/CEE. Ionawr 2007.

⁵Polisi Cynllunio Cymru. Nodyn Cyngor Technegol 5, Gwarchod Natur a Chynllunio. Llywodraeth Cymru, mis Medi 2009. Atodiad 6: Arfarniad cynlluniau datblygu yng Nghymru o dan ddarpariaeth y Rheoliadau Cynefinoedd.

Ffigur 1 – y prif gamau ym mhroses Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (Erthygl 6(3))

Mae'r adrannau lle mae'r broses yn cael ei thrafod yn yr adroddiad hwn mewn print coch



1.4 Penderfynu a ddylai cynllun fod yn ddarostyngedig i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'r Cynllun yn cynnig mesurau ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf o lifogydd ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys mesurau a allai arwain at ymyriadau corfforol â'r amgylchedd. O ganlyniad, mae posibilrwydd o effeithiau ar

safleoedd Ewropeaidd a leolir mewn cymunedau mewn perygl – neu'n gyfagos neu'n gysylltiedig â nhw (er enghraifft, i lawr yr afon). Mae CNC felly wedi penderfynu y bydd CRhPLI Gorllewin Cymru yn ddarostyngedig i ARhC.

2.0 Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd

2.1 Sgrinio cychwynnol o fesurau'r CRhPLI

Mesurau sy'n cael eu gweithredu ar lefel genedlaethol

Mae'r Gyfarwyddeb Llifogydd yn nodi bod Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a Chynlluniau Rheoli Basnau Afon yn agweddau ar reolaeth basnau afon integredig, ac y *'dylai'r ddwy broses felly ddefnyddio'r potensial cilyddol ar gyfer synergeddau a manteision cyffredin, gan ystyried amcanion amgylcheddol Cyfarwyddeb 2000/60/EC, a sicrhau effeithlonrwydd a'r defnydd doeth o adnoddau'*.

Mae'r CRhPLI felly'n cynnwys mesurau er mwyn dangos ymroddiad CNC i reoli basnau afon ac adnoddau naturiol mewn ffordd integredig.

Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd cenedlaethol arfaethedig ar gyfer Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a Chynlluniau Rheoli Basnau Afon

- Nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd dŵr trwy raglenni gwaith a chynlluniau dylunio ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd sydd eisoes yn bodoli.
- Bydd CNC yn ceisio cyfleoedd ac yn dylanwadu ar bobl eraill ym mhob rhan o CNC er mwyn defnyddio mesurau rheoli perygl llifogydd lle bo hynny'n briodol.
- Gweithredu gwaith adlinio a reolir, a chreu cynefinoedd rhwnglanwol trwy'r Rhaglen Creu Cynefinoedd Naturiol.
- Mewn cyrff o ddŵr y nodir eu bod wedi cael eu haddasu'n sylweddol oherwydd gwaith amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir, bydd gwaith lliniaru ar gyfer asedau a gweithgareddau CNC yn cael ei adolygu a'i gyflawni ar sail blaenoriaeth.
- Cyfrannu at amcan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a statws cadwraeth ffafriol ar safleoedd Rheoli Lefel Dŵr sydd wedi cael eu blaenoriaethu.
- Cyfrannu at ymchwil a gwaith datblygu er mwyn nodi'r arferion gorau ar gyfer rheoli pwysau hydromorffolegol ar yr amgylchedd dŵr.

Mae'r mesurau cenedlaethol hyn yn ymroddiad gan CNC i sicrhau bod gwaith rheoli perygl llifogydd gweithredol yn cyflenwi, lle bo hynny'n bosibl, manteision ar gyfer yr amgylchedd dŵr. Bydd y mesurau cenedlaethol hyn yn dylanwadu ar y mesurau arfaethedig ar gyfer pob un o'r cymunedau sydd mewn perygl.

Mesurau a neilltuir i gymunedau mewn perygl

Mae'r CRhPLI yn cynnwys mesurau parhaus, mesurau y cytunir arnynt, a mesurau arfaethedig, mewn pedwar maes cyffredin: Atal, Amddiffyn, Parodrwydd, a Gwella ac Adolygu. Mae'r mesurau parhaus a'r mesurau y cytunir arnynt wedi mynd trwy broses ymgynghori ac mae ganddynt Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd cysylltiedig sydd wedi cael eu cymeradwyo. Dyma'r polisiâu a'r camau gweithredu a amlinellir yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin a'r Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd ail genhedlaeth, ac asesiadau penodol ar lefel brosiect.

Mae'r mesurau arfaethedig yn y cynllun hwn yn canolbwyntio ar y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf o lifogydd. Nid yw'r ARhC hwn yn ail-drafod casgliadau'r ARhC ar gyfer Cynllun Rheoli Traethlin 2 na'r Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd, gan fod y dogfennau hyn yn weithredol ac yn cael eu derbyn o hyd. Fodd bynnag, mae'n ystyried a'r yw mesurau arfaethedig yn unol â'r polisiâu a amlinellir yn y cynlluniau hynny.

Yn yr un modd â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, rydym yn cynnig canolbwyntio'r ARhC ar y mesurau rheoli perygl llifogydd statudol sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer cydsyniad i ddatblygiad neu sy'n gwneud penderfyniad ynglŷn ag opsiwn penodol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ar lawr gwlad. Fel arfer, mae'r rhain yn dod o dan y categori mesurau 'amddiffyn' (gweler Tabl 1). Gwnaethom dynnu'r canlynol o'r cwmpas:

1. Mesurau atal (er enghraifft, mesurau osgoi, cynllunio defnydd tir, ac amddiffyn eiddo unigol). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â pherygl llifogydd, a gweithio'n agos gydag awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a busnesau, a gweithredwyr seilwaith er mwyn iddynt ddeall canlyniadau perygl llifogydd yn y lleoliadau y maent yn eu dewis ar gyfer gwaith datblygu. Rydym yn cynnig cyngor ar sut mae datblygiadau newydd yn cael eu dylunio i wrthsefyll llifogydd yn well, a sut y gellir osgoi datblygiadau anaddas trwy'r broses gynllunio. Rydym yn sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cynyddu'r perygl o lifogydd trwy gydsynio ag ymgynghoriadau cynllunio ac ymateb iddynt. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ategu gan raglen o fapio a modelu sydd â'r flaenoriaeth, a thrwy gyfrannu at ymchwil a gwaith datblygu.
2. Mesurau parodrwydd (er enghraifft rhagolygu llifogydd, rhybuddion llifogydd, ac ymwybyddiaeth y cyhoedd). Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw a gwella ein gwasanaethau rhagolygu llifogydd, rhybuddion llifogydd, a rheoli llifogydd. Cynyddu ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac annog pobl i gofrestru gyda Floodline. Defnyddio Cynllunio Systemau ar gyfer Rheoli Asedau er mwyn monitro cyflwr a gwaith cynnal a chadw asedau. Darparu ymateb i lifogydd 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn.

Mae'r mesurau hyn yn argymhellion, ac yn weithgareddau rheoli neu waith desg technegol, ac nid oes ganddynt lwybrau ynglŷn â'r effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd.

Mae mesurau adfer ac adolygu'n weithgareddau ategu yn dilyn llifogydd. Nid yw'n bosibl asesu mesurau adfer, gan nad yw eu lleoliad na'r math o weithgarwch yn hysbys cyn i lifogydd ddigwydd. Nid oes unrhyw fesurau adfer ac adolygu penodol wedi'u cynnwys yn y CRhPLI, ac felly nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn yr ARhC hwn. Byddai ARhC ar lefel brosiect yn cael ei weithredu yn unol ag arferion gorau CNC.

Tabl 1: Categoriâu a Disgrifiadau Mesurau CRhPLI

Math o fesur	Disgrifiad	Wedi'i gynnwys yn y cwmpas neu beidio
Atal	Atal difrod a achosir gan lifogydd: <ol style="list-style-type: none"> 1. Trwy osgoi adeiladu tai a diwydiannau mewn ardaloedd sydd mewn perygl llifogydd – ar hyn o bryd ac yn y dyfodol 2. Trwy addasu derbynyddion cyfredol i berygl llifogydd, a thrwy sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn ystyried perygl llifogydd 3. Trwy hyrwyddo'r defnydd priodol o dir 	Wedi'u tynnu o'r cwmpas
Amddiffyn	Cymryd camau, rhai strwythurol a rhai nad ydynt yn strwythurol, er mwyn lleihau'r tebygrwydd o lifogydd mewn lleoliad penodol	Wedi'i gynnwys yn y cwmpas
Parodrwydd	Hysbysu'r boblogaeth am berygl llifogydd a'r hyn i'w wneud os oes llifogydd, gan gynnwys yr ymateb mewn argyfwng; datblygu cynlluniau ymateb mewn argyfwng rhag ofn bod achos o orlifo	Wedi'i dynnu o'r cynnwys
Adfer ac adolygu	Dychwelyd i amgylchiadau arferol cyn gynted ag y bo modd, a lleihau effaith gymdeithasol ac economaidd ar y boblogaeth sydd wedi cael ei heffeithio	Wedi'i dynnu o'r cynnwys Ni chynigiwyd llawer o'r mesurau hyn yn y CRhPLI, gan nad yw'n bosibl rhagweld ym mha le y bydd y llifogydd yn digwydd.

Mae'r mesurau amddiffyn rydym wedi'u cynnwys yn yr ARhC isod, gyda'r nifer o gymunedau maent yn eu cynnwys, mewn cromfachau. Nid yw'r mesurau sydd ar gefndir llwyd yn digwydd yn y cymunedau yn ardal y basn afon hwn.

- Asesu gofynion trosglwyddo a rhoi gwaith cynnal a chadw ar waith (0)
- Cynnal yr asesiad cychwynnol a gwaith ar y posibilrwydd o leihau perygl llifogydd (15)
- Datblygu cynllun arfarnu ar gyfer Cynllun Lliniaru Llifogydd (0)
- Dylunio a gwneud gwelliannau i asedau perygl llifogydd neu gynllun lliniaru (1)
- Cynnal asesiad o strwythurau sydd eisoes yn bodoli er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben (0)
- Gweithredu mesurau lleihau perygl amgen (1)
- Cynnal a chadw'r amddiffynfeydd a'r gyfundrefn arolygu gyfredol sy'n bodoli eisoes (8)

Mae'r mesurau sydd wedi'u sgrinio i mewn i'r ARhC ar lefel uchel, ac mae llawer ohonynt yn gwneud argymhellion i asesu, dylunio, neu gynnal a chadw strwythurau sy'n bodoli eisoes ymhellach. Ni all yr ARhC hwn ddod i unrhyw gasgliadau ynglŷn ag effeithiau arwyddocaol lle nad yw canlyniad yr asesiadau neu'r dyluniadau'n hysbys. Mae dull rhagofalus wedi cael ei ddefnyddio; lle nad yw'n glir neu na ellir dangos na fydd mesur CRhPLI yn cael effaith arwyddocaol, rydym wedi ei dynnu o gwmpas ARhC yr CRhPLI, ond byddwn yn ei drosglwyddo i lefel brosiect yr ARhC.

2.2 Nodi safleoedd Ewropeaidd perthnasol

Mae Atodiad 1 yn cynnwys ffigurau sy'n dangos y safleoedd Ewropeaidd a leolir ymhob dalgylch rheoli, yn ogystal â chlustogfa o 20km. Rhoddwyd clustogfa o 20km er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys safleoedd trawsffiniol, effeithiau cronus posibl, a hefyd rhywogaethau symudol. Dangosir y cymunedau mewn perygl lle mae mesurau amddiffyn wedi cael eu cynnig ar gefndir gwyrdd yn y ffigurau.

Rhoddodd yr ymarfer mapio hwn restr o'r safleoedd Ewropeaidd a fydd yn cael eu cynnwys yn yr ARhC hwn. Mae cyfanswm o 123 o safleoedd, ac maent wedi cael eu rhifo yn y ffigurau ac yn Nhabl 2 isod i sicrhau bod y mapiau'n eglur.


Noder, er y rhoddwyd clustogfa o 20km yn y rhan fwyaf o achosion, ni roddwyd terfyn ar faint y glustogfa pan oedd safleoedd wedi cael eu dynodi oherwydd pysgod. Pe bai safle wedi cael ei ddynodi oherwydd pysgod, fe fyddai'n cael ei gynnwys yn rhestr pe bai i fyny neu i lawr yr afon o unrhyw bellter.

Cynhaliwyd y broses ARhC ar gyfer pob un o'r 123 o safleoedd Ewropeaidd a nodwyd uchod. Er mwyn sicrhau bod yr ARhC yn canolbwyntio ar y safleoedd sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynllun, cynhaliwyd ymarfer sgrinio safleoedd Ewropeaidd wedyn. Ymgwymerwyd â'r ymarfer hwn mewn modd systematig er mwyn ystyried safleoedd sydd eisoes yn cael eu heffeithio gan fesurau amddiffyn, ond hefyd er mwyn ystyried safleoedd

sydd â nodweddion o ddiddordeb symudol megis pysgod, adar, dyfrgwn, ystlumod, gloÿnnod byw, a mursennod.

Mae'r broses sgrinio a ddefnyddiwyd yn cael ei hegluro yn Ffigur 2 ac yn cael ei disgrifio isod.

Ffigur 2: Siart lif sy'n dangos y broses sgrinio safleoedd



Ystyriwyd pob un o'r 123 o safleoedd Ewropeaidd y nodwyd ei fod yn berthnasol i'r ARhC (Atodiad 1, Tabl 1) yn ystod y broses sgrinio safleoedd Ewropeaidd (bob safle o fewn clustogfa 20km i fesur amddiffyn, i fyny neu i lawr afon lle mae safle pysgod). Fel y dangosir yn y siart lif, roedd y gwaith o sgrinio safleoedd Ewropeaidd wedyn yn ystyried pob un o'r cymunedau mewn perygl lle mae mesurau amddiffyn wedi cael eu cynnig a'u cynnwys ym Mhrawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol ar gyfer unrhyw safleoedd sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

U – Uniongyrchol Unrhyw safle Ewropeaidd sydd o fewn neu'n gyfagos â chymuned mewn perygl

S – Rhywogaeth symudol:

- Unrhyw safle sydd ag ystlumod, adar neu ddyfrgwn yn briodwedd o fewn 20km i gymuned mewn perygl.
- Cafodd unrhyw safleoedd sydd â mursennod neu loynnod byw yn briodwedd (ond dim rhywogaethau symudol eraill) eu cynnwys pe baent o fewn 20km i gymuned mewn perygl.
- Cafodd unrhyw safleoedd sydd â'r fadfall ddŵr gribog yn briodwedd (ond dim rhywogaethau symudol eraill) eu cynnwys pe baent o fewn 1km i gymuned mewn perygl.

P – Pysgod: Unrhyw safle Ewropeaidd sy'n rhestru pysgod yn briodwedd, unrhyw bellter i fyny neu i lawr yr afon i gymuned mewn perygl.

Mae'r pellteroedd a nodir uchod yn unol â chanllawiau etifeddol Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer asesu rhywogaethau symudol. O ystyried symudedd adar, mae'n bosibl bod achos dros gynnwys pob Ardal Gwarchod Arbennig a phob Safle Ramsar. Fodd bynnag, wrth ystyried maint a natur y mesurau gwarchod, mae'n debyg y bydd yr effeithiau posibl yn lleol ac yn dibynnu ar asesiadau pellach ar lefel brosiect. Cafodd pob Ardal Gwarchod Arbennig ei chynnwys ar gyfer rhywogaethau symudol pe baent o fewn 20km i Fesur Gwarchod a phob Safle Ramsar o fewn 20km os yw adar yn cael eu rhestru yn nodwedd sy'n eu gwneud yn gymwys.

Mae Atodiad 2 yn dangos canlyniadau'r broses sgrinio safleoedd Ewropeaidd hon yn llawn – mae safleoedd sydd wedi cael eu hepgor ar gefndir gwyrdd. Rhestrir y safleoedd a gafodd eu cynnwys ym Mhrawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol yn Nhabl 2 isod. Yn dilyn y broses sgrinio safleoedd, cafodd 51 o'r 123 o safleoedd a oedd yn cael eu hystyried yn berthnasol i'r ARhC eu cynnwys ym Mhrawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol, a chafodd y gweddill eu hepgor o'r ARhC.

Tabl 2: Safleoedd a gafodd eu cynnwys yn yr ARhC

Safleoedd Ewropeaidd a gafodd eu cynnwys yn yr ARhC oherwydd effeithiau uniongyrchol, effeithiau ar rywogaethau symudol, ac effeithiau ar bysgod			
Ramsar	Ardal Gwarchod Arbennig (AGA)	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)	ACA parhad
Ramsar Cilfach Porth Tywyn	AGA Bae Caerfyrddin	Afon Eden – ACA Cors Goch Trawsfynydd	ACA Mwyngloddiau Fforest Gwydir
Cors Caron Ramsar	AGA Berwyn	ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn	ACA Coedydd Gogledd Sir Benfro

Ramsar Cors Fochno a Dyfi	AGA Cilfach Porth Tywyn	ACA Afon Teifi	Comin Gogledd Orllewin Sir Benfro
Ramsar Cors Crymlyn	AGA Arfordir Castellmartin	ACA Afon Tywi	ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton
Ramsar Môr Hafren (Cymru)	AGA Craig yr Aderyn	ACA Afonydd Cleddau	ACA Sir Benfro Forol
	AGA Aber Dyfi	ACA Bae Ceredigion	ACA Pen Llŷn a'r Sarnau
	AGA Elenydd – Mallaen	ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd	ACA Afon Wysg
	AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli	ACA Clogwyni Pen Llŷn	ACA Afon Gwy (Cymru)
	AGA Glannau Ynys Gybi	ACA Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn	ACA Môr Hafren (Cymru)
	AGA Migneint–Arenig–Dduallt	ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion	ACA Tyddewi
	AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal	ACA Cors Caron	ACA y Fenai a Bae Conwy
	AGA Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Tyddewi	ACA Corsydd Môn	
	AGA Môr Hafren (Cymru)	ACA Cors Crymlyn	
	AGA Ynys Sgomer ac Ynys Sgogwm	ACA Eryri	
	AGA Traeth Lafan, Bae Conwy	ACA Glannau Ynys Gybi	
	AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid	Glynllifon	
	AGA Ynys Seiriol	ACA Arfordir Calchfaen De Orllewin Cymru	

3.0 Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol

Roedd Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol yn canolbwyntio ar yr effeithiau posibl ar fesurau gwarchod ar y 51 safle Ewropeaidd a gafodd eu cynnwys yn ystod y broses sgrinio safleoedd. Mae'r canlyniadau'n cael eu dogfennu yn Atodiad 3. Cynhaliwyd y gwaith hwn ar sail y cymunedau penodol mewn perygl er mwyn galluogi cyfeiriadau hwylus pan fydd y mesurau'n cael eu gweithredu ar lefel brosiect neu gynllun haen is. Mae'r canlyniadau isod (Adran 4) yn dangos crynodeb o'r canfyddiadau ar gyfer safleoedd Ewropeaidd er mwyn galluogi ystyried cydeffeithiau.

Wrth gynnal yr asesiad, ymgwymerwyd â chroeswiriad o gydymffurfriad y mesurau newydd â pholisïau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli Traethlin 2, y Cynllun Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd, a'r Cynllun Rheoli Basn Afon perthnasol. Mae'r canlyniadau wedi'u cofnodi yn Atodiad 3.

3.1 Asesiad o debygrwydd cydeffeithiau arwyddocaol gan y CRhPLI

Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn mynnu bod yr ARhC yn archwilio'r posibilrwydd y bydd y CRhPLI yn cael effaith arwyddocaol - ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Nid yw'r ARhC wedi llwyddo i ddod i unrhyw gasgliadau ynglŷn ag effeithiau arwyddocaol ar gyfer y rhan fwyaf o'r safleoedd Ewropeaidd a gafodd eu hystyried (28 o 51 safle). Felly, nid yw'n bosibl chwaith asesu cydeffeithiau mewn modd ystyrlon pan nad oes yr effaith unigol yn hysbys. Lle mae ARhC wedi cael ei drosglwyddo i lefel brosiect, bydd yr asesiad o gydeffeithiau hefyd yn cael ei ystyried yn yr asesiad ar lefel y prosiect. Mae'r cynlluniau a gafodd eu hystyried fel rhan o'r asesiad o gydeffeithiau yn cael eu tynnu o'r rhain a adolygwyd fel rhan o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, ac mae'r asesiad hefyd yn ystyried ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y CRhPLI drafft a'r Adroddiad Amgylcheddol. Cynlluniau ar raddfa ddaearyddol debyg i'r CRhPLI yn unig sydd wedi cael eu hystyried.

Mae Tabl 3 yn trafod lle mae'n bosibl y bydd cynlluniau o'r fath yn effeithio ar safleoedd Ewropeaidd ar y cyd â CRhPLI Gorllewin Cymru.

Tabl 3: Effeithiau ar y cyd

Enw'r cynllun	Cyd-ffeithiau posibl â'r CRhPLI ar safleoedd Ewropeaidd	Mesurau lliniaru a rheoli
Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy	<p>Mae CRhPLI Afon Dyfrdwy yn ffinio ar CRhPLI Gorllewin Cymru, ac felly mae'n bwysig bod effeithiau mesurau yn CRhPLI Afon Dyfrdwy yn cael eu hystyried ar y cyd â'r mesurau arfaethedig yn CRhPLI Gorllewin Cymru. Roedd wyth safle Ewropeaidd a saith cymuned yn ARhC CRhPLI Afon Dyfrdwy sydd angen asesiad ar lefel brosiect.</p> <p>Dyma'r cymunedau a gafodd eu cynnwys yn CRhPLI Afon Dyfrdwy fel rhai sydd angen ARhC pellach ar lefel brosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cei Connah • Queensferry – Sandy Croft – Manor Lane • Walwen a Weelston • Wreccsam • Bretton • Fflint • Leeswood <p>Mae pob un o'r rhain o fewn 20km i Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw safleoedd yn yr ARhC hwn y nodwyd bod angen asesiad ar lefel brosiect arnynt yn ARhC CRhPLI Afon Dyfrdwy. Felly mae cyd-ffeithiau'n annhebygol.</p>	Bydd asesiad ar lefel brosiect ac ARhC yn cael eu cynnal lle bo hynny'n briodol – er nad oes unrhyw effeithiau posibl wedi cael eu nodi yn ystod y cam hwn.
Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Môr Hafren		Bydd asesiad ar lefel brosiect ac ARhC yn cael eu cynnal lle bo hynny'n briodol.
Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (Cyhoeddwyd y	Mae'r CRhBA drafft yn amlinellu mesurau sydd â'r nod o gyflawni Statws Ecolegol Da neu Botensial mewn Cyrff Dŵr ar draws Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. Nod y cynllun terfynol yw blaenoriaethu'r mesurau hyn ar sail amryw baramedrau, gan	Bydd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac ARhC ar lefel brosiect yn cael eu cynnal ar gyfer prosiectau sy'n dod o'r CRhBA a'r CRhPLI. Bydd hyn yn nodi'r effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd, ar ei ben ei hun ac ar y cyd ar lefel

<p>Drafft fis Medi 2014)</p>	<p>gynnwys Statws Cadwraeth Ffafirol ar safleoedd Ewropeaidd sy'n ddibynnol ar ddŵr. Mae'r CRhBA a'r CRhPLI wedi cael eu datblygu ar y cyd, ac mae hyn wedi galluogi nodi'r synergeddau a'r gwrthdrawiadau rhwng y ddau fesur. Lle mae mesurau yn y CRhBA yn cynnig addasiadau corfforol, mae'n bosibl y bydd rhyngweithio rhwng y mesurau arfaethedig yn y CRhPLI. Lle mae'r rhain yn agos i safleoedd Ewropeaidd, gallai hyn arwain at gyd-ffeithiau. Gan fod gweithgareddau'r CRhBA yn canolbwyntio ar safleoedd Ewropeaidd sy'n ddibynnol ar ddŵr, a bod mesurau CRhPLI yn canolbwyntio ar yr amgylchedd dŵr, mae'r safleoedd hyn yn fwy tebygol o fod yn agored i gyd-ffeithiau. Gallai cyd-ffeithiau o'r fath gynnwys effeithiau adeiladu, megis sŵn ac ymyrraeth weledol, neu effeithiau a achosir gan weithgareddau megis newid llif/lefel dŵr neu weithgareddau ar y cyfansoddiad corfforol.</p>	<p>brosiect, wrth i ragor o fanylion ddod i'r amlwg. Bydd mewnbwn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol a'r ARhC i'r proses arfarnu opsiynau'n ceisio osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau posibl.</p> <p>Trwy'r prosesau cynllunio, rydym wedi nodi gwrthdrawiadau a synergeddau posibl rhwng mesurau'r CRhBA a mesurau'r CRhPLI. Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni ar lefel weithredol, rydym yn ychwanegu'r data hyn at Gofrestr Cymunedau mewn Perygl, i sicrhau bod y materion yn cael eu hystyried yn gynnar yn y prosiect. Bydd gwneud hyn yn hyrwyddo nifer o ganlyniadau amgylcheddol trwy weithgareddau rheoli perygl llifogydd, ac yn sicrhau deialog gynnar ac ystyriaeth gwrthdrawiadau posibl.</p>
<p>Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Tachwedd 2011</p>	<p>Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru. Mae'n nodi pedwar amcan cyffredinol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Lleihau'r goblygiadau 2. Codi ymwybyddiaeth 3. Rhoi ymateb effeithiol a pharhaus 4. Blaenoriaethu buddsoddiad <p>Mae'r cynllun, fel yr oedd yr ARhC, yn strategol a heb fod yn ofodol. Daeth yr ARhC i'r casgliad hwn: <i>'Nid oedd yn bosibl bod yn sicr na fydd y posibilrwydd o effeithiau ar gyfanrwydd un neu fwy o'r safleoedd sydd â phwysigrwydd Ewropeaidd yn parhau, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, sy'n codi yn sgil gweithrediad y cynllun.'</i> Mae'r ARhC yn nodi'r cyfiawnhad, yr achos dros fudd cyhoeddus tra phwysig, a'r mesurau cydadferol (Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol CNC). Fe wnaeth hefyd ymroi y byddai cynlluniau haen is (megis Cynlluniau Rheoli Traethlin 2) sy'n gweithredu'r strategaeth yn ddarostyngedig i ARhC pellach (gweler isod).</p>	<p>Nid oes angen un ar y lefel hon gan nad yw'r strategaeth yn ofodol. Mae cynlluniau is, megis y CRhPLI, yn unol â'r strategaeth hon.</p>

	Mae'r CRhPLI wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r strategaeth hon.	
<p>Cynllun Rheoli Traethlin 2 Gorllewin Cymru</p> <p>Cynllun Rheoli Traethlin 2 Gogledd-orllewin a Gogledd Cymru</p> <p>Cynllun Rheoli Traethlin 2 Abertawe a Bae Caerfyrddin</p> <p>Cynllun Rheoli Traethlin 2 Môr Hafren</p>	<p>Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn amlinellu safbwynt strategol ynglŷn â sut y dylid rheoli perygl llifogydd arfordirol yn y dyfodol. Mae opsiynau polisi sy'n cael eu defnyddio yn debygol o gynnwys y canlynol: dim ymyrraeth weithredol, cynnal y draethlin, ac adlinio a reolir. Dangosodd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd y Cynlluniau Rheoli Traethlin nad oedd yn bosibl penderfynu na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar safleoedd gwarchoddedig, a chafodd cynigion cynefinoedd cydadferol eu paratoi ar gyfer pob Cynllun Rheoli Traethlin 2, ynghyd â datganiad o achos am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig.</p> <p>Ym mhob achos, daeth yr ARhC i'r casgliad na ellid dweud yn bendant na cheir yr effeithiau andwyol arwyddocaol canlynol ar safleoedd Ewropeaidd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Colli cynefin/difrod i gynefinoedd rhwnglanwol dynodedig trwy wasgu arfordirol 2. Colli cynefinoedd cynhaliol trwy wasgu arfordirol <p>Y mecanwaith ar gyfer darparu mesurau cydadferol yw'r Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol, sy'n cael ei rheoli a'i gweithredu gan CNC a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Nod y rhaglen yw creu'r cynefinoedd cydadferol a amlinellir yng Nghynllun Rheoli Traethlin 2, cyn i'r colledion a rhagwelir gael eu gwireddu. Y cynllun cyntaf i gael ei weithredu trwy'r rhaglen hon yw Morfa Cwm Ivy ar Benrhyn Gŵyr.</p> <p>Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin 2 yn amlinellu'r polisiau gwaelodol ar gyfer mesurau'r CRhPLI – o ganlyniad, dylai pob mesur fod yn unol â pholisiau Cynllun Rheoli Traethlin 2. Mae'r ARhC hwn wedi cadarnhau lle mae cydymffurfiaid â pholisiau Cynllun Rheoli Traethlin 2, neu lle mae angen ystyried y mater ymhellach ar lefel brosiect.</p>	<p>Bydd yn rhaid i fesurau CRhPLI arfaethedig mewn lleoliadau arfordirol fod ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac ARhC a fydd yn ystyried yr effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd yn fanwl. Bydd hyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun strategol Cynllun Rheoli Traethlin 2 a'r CRhPLI, a byddai'r ARhC yn cyfeirio at y Datganiad Achos a gymeradwywyd ar gyfer Cynlluniau Rheoli Traethlin 2, gan nodi'r cyfiawnhad a'r mecanweithiau cydadferol sydd ar waith ac yn cael eu gweithredu.</p>

<p>Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd (CDRhLI), Rhagfyr 2009</p> <p>CDRhLI Ogwr i Dawe</p> <p>CDRhLI Llchwyr i Daf</p> <p>CDRhLI Afonydd Sir Benfro a Cheredigion</p> <p>CDRhLI Gogledd-orllewin Cymru</p> <p>CDRhLI Conwy a Chlwyd</p>	<p>Mae Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd yn amlinellu'r fframwaith strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd afonol. Neilltuwyd un o bum polisi ar gyfer pob ardal:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ardaloedd sydd â pherygl llifogydd isel neu sydd heb risg llifogydd, lle byddwn yn parhau i fonitro a rhoi cyngor 2. Ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn isel neu'n ganolig, lle rydym ar y cyfan yn gallu lleihau gweithgareddau rheoli perygl llifogydd cyfredol 3. Ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn isel neu'n ganolig, lle rydym ar y cyfan yn rheoli perygl llifogydd yn effeithiol 4. Ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn isel, yn ganolig neu'n uchel, lle rydym eisoes yn rheoli perygl llifogydd yn effeithiol, ond lle bydd rhaid inni o bosib gymryd camau pellach er mwyn achub y blaen ar newid hinsawdd 5. Ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn ganolig neu'n uchel, lle rydym ar y cyfan yn gallu cymryd camau pellach er mwyn rheoli perygl llifogydd 6. Ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn isel neu'n ganolig, lle byddwn yn cymryd camau ar y cyd â phobl eraill er mwyn storio dŵr neu reoli dŵr ffo mewn mannau sy'n lleihau perygl llifogydd yn gyffredinol neu'n rhoi manteision amgylcheddol <p>Nid oedd yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd yn gallu dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau andwyol arwyddocaol ar rai safleoedd Ewropeaidd. O ganlyniad, cynhaliwyd asesiadau priodol, a ddaeth i'r casgliad y byddai'r polisiau, trwy ystyried y mesurau osgoi arfaethedig a fyddai'n cael eu cyflawni trwy gynlluniau gweithredu'r Cynllun Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd, yn sicrhau na fyddai'r cynllun yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd.</p> <p>Mae'r cynlluniau hyn a'u Hasesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd cysylltiedig wedi dyddio</p>	<p>Mae'r ARhC hwn wedi cadarnhau lle mae cydymffurfiaid â pholisiau'r Cynllun Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd yn syml, neu lle mae angen ystyried y mater ymhellach ar lefel y prosiect.</p>
--	--	---

	<p>rhywfaint, ond mae'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig wedi cael eu hadolygu yn ystod y broses o ddatblygu'r CRhPLI. Ystyried bod y cynlluniau gweithredu'n gyflawn, ac yn gweithredu ac yn ystyried y mesurau osgoi sydd wedi'u hymgorffori ynddynt. Mae'r polisiau gwaelodol yn parhau i fod yn ddilys, ac maent yn amlinellu'r polisiau strategol ar gyfer mesurau'r CRhPLI. Mae'r ARhC hwn wedi cadarnhau lle mae cydymffurfiad â pholisiau'r Cynllun Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd yn syml, neu lle mae angen ystyried y mater ymhellach ar lefel y prosiect.</p>	
<p>Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr</p> <p>Dŵr Cymru Severn Trent</p>	<p>Yn nodi manylion o sut y bydd cwmnïau dŵr yn sicrhau bod digon o ddŵr ar gael ar gyfer diwallu cynnydd arfaethedig y boblogaeth, y tai a'r gweithgaredd economaidd yn yr ardaloedd y maent yn eu cyflenwi, wrth ystyried newid hinsawdd a lleihau'r effaith ar filiau cwsmeriaid a'r amgylchedd. Mae'r opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â diffyg yn y cyflenwad dŵr yn cynnwys: annog defnydd effeithlon o ddŵr, lleihau gollyngiadau a chwilio am adnoddau dŵr newydd – boed hynny trwy ffynonellau newydd neu ffynonellau cyfredol. Daeth Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd y Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr i'r casgliad na fyddai'r broses o'u gweithredu yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol neu andwyol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd.</p> <p>Mae cysylltiadau â'r CRhPLI gan fod rhai seilweithiau megis cronfeydd dŵr yn rhannu'r swyddogaeth o ddarparu adnoddau dŵr, ond ar yr un pryd yn rheoli rhyddhau dŵr ar adegau pan fydd y llif yn uchel. Fodd bynnag, bydd y prif bosibilrwydd o gyd-ffeithiau ar safleoedd Ewropeaidd yn dod trwy gyflawni prosiectau sy'n dod o'r ddau gynllun, yn enwedig os yw'r lleoliad a'r amseriad yn agos. Nid oes digon o fanylion am amseriad a dyluniad y prosiectau hyn, ac o'r herwydd bydd rhaid ystyried y cyd-ffeithiau trwy'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel brosiect.</p>	<p>Bydd yn rhaid i brosiectau sy'n cael eu cyflawni trwy'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a'r CRhPLI fynd trwy Brawf yr Effaith Amgylcheddol ac ARhC. Bydd hyn yn nodi unrhyw effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd, ar ei ben ei hun ac ar y cyd ar lefel brosiect, wrth i ragor o fanylion ddod i'r amlwg. Bydd mewnbwn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd i'r proses arfarnu opsiynau'n ceisio osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau posibl.</p>

<p>Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru</p>	<p>Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n annhebygol y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn y CRhPLI. Felly, nid yw'n bosibl nac yn briodol ystyried cyd-ffeithiau'r cynlluniau. Fodd bynnag, bydd cysylltiadau clir rhwng y ddau gynllun ynglŷn â rheoli arfordir Cymru, a bydd rheoli perygl llifogydd yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar bolisiau cynllunio priodol ar gyfer arfordir Cymru.</p>	<p>Mae CNC yn cymryd rhan yn y broses cynllunio arfordirol ac yn ymgylgoreion ar gyfer y cynllun.</p>
<p>Cynllun Gofodol Cymru 2004 (diweddarwyd 2008)</p>	<p>Gwnaeth Cynllun Gofodol Cymru amlinellu blaenoriaethau cenedlaethol trawsbynciol. Mae'n cwmpasu'r elfennau sydd eu hangen er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy, gwasanaethau, y defnydd o dir a buddsoddiad, ac yn rhoi fframwaith ar gyfer datblygu safbwyntiau cenedlaethol a rhanbarthol, gan adlewyrchu anghenion unigryw amryw gymunedau ledled Cymru. Nid oedd yr ARhC yn gallu dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd, ac felly cynhaliwyd asesiad priodol. Mae Cynllun Gofodol Cymru'n amlinellu'r fframwaith ar gyfer cynlluniau haen is, ac roedd y broses liniaru a amlinellir yn yr asesiad priodol yn cynnwys yr angen i gynlluniau haen is fod yn ddarostyngedig i ARhC ac i ddarparu hyfforddiant ar gynnal Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd. O ganlyniad i'r mesurau osgoi a lliniaru, daeth ARhC Cynllun Gofodol Cymru i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd. Oherwydd natur lefel uchel Cynllun Gofodol Cymru a'r CRhPLI, nid yw'n ymarferol penderfynu a yw cyd-ffeithiau yn bosibilrwydd. Fodd bynnag, mae ARhC Cynllun Gofodol Cymru yn cydnabod effeithiau anuniongyrchol posibl mesurau amddiffyn rhag llifogydd wrth newid morliniau a glannau afonydd, yn ogystal â symudiad dŵr a gwaddod.</p>	<p>Bydd CNC yn parhau i roi cyngor i awdurdodau lleol a datblygwyr ynglŷn â pheryglon datblygu ar orlifdiroedd.</p> <p>Bydd prosiectau sy'n cael eu cyflawni trwy'r CRhPLI yn amddiffyn datblygiadau sy'n bodoli eisoes yn unig, nid datblygiadau arfaethedig, a bydd yn rhaid iddynt gael Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac ARhC. Bydd hyn yn nodi unrhyw effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd, ar ei ben ei hun ac ar y cyd ar lefel brosiect, wrth i ragor o fanylion ddod i'r amlwg. Bydd mewnbwn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd i'r proses arfarnu opsiynau'n ceisio osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau posibl.</p>
<p>Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014–2020</p>	<p>Nod y Cynllun Datblygu Gwledig yw gwella cystadleuaeth a gwydnwch y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth, diogelu a gwella'r amgylchedd gwledig trwy annog arferion rheoli tir cynaliadwy, a hyrwyddo cynnydd economaidd gwledig cryf a chynaliadwy. Daeth Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol y Cynllun Datblygu Gwledig i'r casgliad bod potensial i amddiffyn a gwella</p>	<p>Gall Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ystyried amcanion y Cynllun Datblygu Gwledig ac anelu at gyflawni manteision tebyg ar gyfer bioamrywiaeth. Nid yw'n bosibl ystyried cyd-ffeithiau ar lefel strategol gan nad oes gan y Cynllun Datblygu Gwledig ARhC. Bydd yn rhaid ystyried cyd-</p>

	<p>gwasanaethau ecosystem a gwerthoedd bioamrywiaeth ac ati – ond y byddai hynny'n dibynnu ar argaeledd cyllid. Fe wnaeth argymhell hefyd y dylai cynlluniau sy'n dod o'r cynllun ystyried canlyniadau ar gyfer bioamrywiaeth. Nid oedd ARhC y Cynllun Datblygu Gwledig ar gael er mwyn cymharu cyd-ffeithiau. Mae mesurau CRhPLI yn rhoi llawer o bwyslais ar amddiffyn pobl ac eiddo, ac yn aml mae hyn mewn ardaloedd trefol. Gellir ystyried atebion mewn uwch-dalgylchoedd, felly mae'n bosibl y bydd cysylltiadau rhwng y cynlluniau – ond bydd yn rhaid ystyried cyd-ffeithiau ar safleoedd Ewropeaidd ar lefel brosiect ar gyfer cynlluniau sy'n dod o'r cynllun hwn.</p>	<p>effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd ar lefel brosiect ar gyfer cynlluniau sy'n dod o'r cynllun hwn.</p>
<p>Cynlluniau Datblygu Lleol/Unedol (gan gynnwys Cynlluniau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)</p>	<p>Gall hyrwyddo cynnydd mewn cynlluniau datblygu lleol, yn dibynnu ar y lleoliad, yn rhoi pwysau ar safleoedd Ewropeaidd. Gallai gweithgareddau sy'n dod o gynlluniau datblygu lleol arwain at effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd trwy darfu ar bethau yn ystod y broses adeiladu, ac at effeithiau andwyol trwy lechfeddiannu ar gynefinoedd neu ddadleoli rhywogaethau – neu effeithiau anuniongyrchol megis addasiadau i systemau draenio, rhagor o ddŵr ffo ar arwynebau, a llygredd ffynonellau gwasgaredig/tarddleoedd pwynt. Mae'n annhebyg y bydd rhyngweithio arwyddocaol â CRhPLI Gorllewin Cymru, o ystyried bod y gweithgareddau a gynhwysir yn yr asesiad hwn yn seiliedig ar leihau perygl llifogydd ar gyfer datblygiadau sy'n bodoli eisoes yn unig. Nod cyngor a chydysniad CNC yw sicrhau bod awdurdodau lleol a datblygwyr yn ymwybodol o berygl llifogydd, ac yn ei ystyried wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau a'u prosiectau.</p>	<p>Bydd CNC yn parhau i roi cyngor i awdurdodau lleol a datblygwyr ynglŷn â pheryglon datblygu ar orlifdiroedd.</p> <p>Bydd prosiectau sy'n cael eu cyflawni trwy'r CRhPLI yn amddiffyn datblygiadau sy'n bodoli eisoes yn unig, nid datblygiadau arfaethedig, a bydd yn rhaid iddynt gael Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac ARhC. Bydd hyn yn nodi unrhyw effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd, ar ei ben ei hun ac ar y cyd ar lefel brosiect, wrth i ragor o fanylion ddod i'r amlwg. Bydd mewnbyn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd i'r proses arfarnu opsiynau'n ceisio osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau posibl.</p>

4.0 Casgliad Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol

Roedd rhai cyfyngiadau wrth ymgymryd â Phrofion yr Effaith Arwyddocaol Debygol ar gyfer cynllun lle nad yw canlyniad gweithredu'r mesurau'n sicr, a byddant yn destun lefelau mwy manwl o gynlluniau a phrosiectau.

Er bod lleoliad y mesurau yn cael eu diffinio'n gyffredinol yn y cynllun (mae cymunedau mewn perygl yn cael eu nodi ond nid yw lleoliadau penodol y prosiect), nid yw'r gweithgareddau penodol sy'n debygol o gael eu cynnal yn hysbys.

Ar ôl Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol a nodir yn Atodiad 2, roeddem yn gallu dod i'r casgliad na fyddai effaith arwyddocaol o ganlyniad i'r cynllun ar 23 safle Ewropeaidd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Ramsar Cilfach Porth Tywyn
- Ramsar Cors Crymlyn
- AGA Cilfach Porth Tywyn
- AGA Arfordir Castellmartin
- AGA Elenydd – Mallaen
- AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli
- AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal
- AGA Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Tyddewi
- ACA Môr Hafren (Cymru)
- AGA Ynys Sgomer ac Ynys Sgogwm
- ACA Afonydd Cleddau
- ACA Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn
- ACA Cors Crymlyn
- ACA Eryri
- ACA Ynys Gybi
- ACA Mwyngloddiau Fforest Gwydir
- ACA Coedydd Gogledd Sir Benfro
- ACA Comin Gogledd-orllewin Sir Benfro
- ACA Safleoedd Ystum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton
- ACA Afon Wysg
- ACA Afon Gwy (Cymru)
- ACA Tyddewi

Felly, mae'r safleoedd hyn wedi cael eu hepgor o'r angen am ARhC pellach ar lefel strategol neu ar lefel brosiect.

Roedd asesiadau'n nodi bod angen asesiadau pellach ar lefel brosiect ar lawer o'r safleoedd Ewropeaidd (28 o'r 51 safle a gafodd eu cynnwys). Mae'r safleoedd hyn wedi cael eu dangos ag oren yn Nhabl 4 isod. Mae'r safleoedd a'r cymunedau a gafodd eu hepgor o'r angen am ARhC pellach ar gefndir gwyrdd ym mhenawdau'r tabl.

Mae'n bosibl y bydd cynigion mewn cynllun sy'n cynnig darpariaeth ar gyfer y math o newid, ond nid maint y newid neu leoliad penodol, yn cael eu hasesu'n fwy priodol mewn cynllun haen is neu brosiectau. Mae trosglwyddo'r ARhC i gynllun haen is neu brosiect yn amodol ar y meini prawf canlynol:

- a. nid yw'n yw'n rhesymol i'r cynllun haen uwch ragweld effeithiau ar safle Ewropeaidd mewn ffordd ystyrlon; tra
- b. bydd yr haen is, a fydd yn dangos yn fwy cywir natur/maint/lleoliad y datblygiad, ac felly eu heffeithiau posibl, yn cadw digon o hyblygrwydd ynglŷn ag union leoliad, maint neu natur y cynigion er mwyn sicrhau na fydd effaith andwyol ar gyfanrwydd (hyd yn oed pe bai hynny'n golygu dileu'r cynnig); ac
- c. mae angen yr arfarniad ar haen is yn ôl y gyfraith neu er mwyn dilyn polisi, ac o'r herwydd gellir dibynnu arno.

Mae llawer o'r mesurau yn argymhell asesiadau, e.e. Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith ar y posibilrwydd o leihau perygl llifogydd. Ni fydd yr asesiadau hyn ynddynt eu hunain yn arwain at unrhyw weithgareddau, ar wahân i arolygon, gwaith monitro a pharatoi achosion busnes. Felly mae'n anodd rhagweld effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd yn ystod y cam hwn o'r broses.

Mae CNC yn cynnal asesiadau amgylcheddol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel brosiect er mwyn sicrhau bod effeithiau amgylcheddol yn cael eu hatal, eu lleihau neu eu lliniaru, ac i fanteisio i'r eithaf ar nifer o ganlyniadau amgylcheddol. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu cynnal ar ddechrau'r prosiect, yn ystod y cam asesu cychwynnol, yr arfarniad o opsiynau, a'r dylunio a'r adeiladu manwl er mwyn sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio i ystyriaethau technegol ac economaidd. Mae integreiddio'r ystyriaethau amgylcheddol yn sicrhau bod rhaglen, dyluniad a lleoliad y prosiect yn gallu ystyried sensitifrwydd safleoedd Ewropeaidd er mwyn osgoi effeithiau lle bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn cael ei gynnal o dan bolisiau cyrff etifeddol a/neu fel gofyniad cyfreithiol.

Mae asesiadau ar lefel brosiect yn ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer rheoli perygl llifogydd, gan gynnwys adeiladu amddiffynfeydd, storio dŵr llifogydd i fyny'r afon, sianeli osgoi ac ati. Ystyrir amcanion technegol, economaidd ac amgylcheddol yn ystod y broses o ddewis yr opsiwn gorau. Mae CNC yn ceisio cyflawni canlyniadau amgylcheddol trwy gyflawni ein brosiectau, ac mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o bethau megis cyflawni'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer cynefinoedd, gwelliannau i bysgodfeydd neu lwybrau pysgod, mesurau lliniaru ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, trin planhigion goresgynnol ac ati. Ym mhob achos, amcan canlyniadau amgylcheddol fyddai osgoi unrhyw effaith ar safleoedd Ewropeaidd ar y lleiaf, a helpu i gyflawni gweithgareddau a fydd yn cyflawni cadwraeth ffatriol safle Ewropeaidd ar y gorau.

Bydd Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol a gynhaliwyd ar gyfer y CRhPLI yn darparu gwybodaeth lefel uchel am safleoedd Ewropeaidd a nodweddion mae'n rhaid eu hystyried yn Asesiad yr Effaith Amgylcheddol a'r ARhC ar lefel y prosiect. Er enghraifft, bydd yn rhaid i'r mesur ar gyfer dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd yn Ninbych-y-Pysgod ystyried y canlynol:

- effeithiau anuniongyrchol ar rywogaethau symudol (pysgod, dyfrgwn a morloi) sy'n gysylltiedig ag ACA Sir Benfro Forol
